



Cyngor Sir Powys  
Neuadd y Sir  
Llandrindod Wells  
Powys LD1 5LG

Date: 9 Gorffennaf 2020

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Rydym yn gwybod bod y misoedd diwethaf wedi bod yn anodd i ddysgwyr gyda llawer yn teimlo'n bryderus am golli dysgu a pheidio â gallu gweld eu ffrindiau. Dyna pham ein bod yn croesawu cynllun y Gweinidog Addysg a fydd yn galluogi'r cyngor i baratoi ar gyfer ailagor yr ysgolion sy'n gallu gwneud hynny yn ystod wythnos gyntaf mis Medi, gyda'r ysgolion i gyd yn dychwelyd yr wythnos ganlynol.

O'r cychwyn, roeddwn am rannu cymaint o wybodaeth ag y gallwn gyda chi am y trefniadau er mwyn i chi ddeall yr hyn fydd ar waith o fis Medi.

Bydd diwrnodau cynllunio a pharatoi yn cael eu cynnal ar ddechrau'r tymor i adolygu asesiadau risg a'r prosesau a systemau i sicrhau y gall ysgolion unigol groesawu disgyblion yn ôl yn ddiogel.

Efallai y bydd angen blaenoriaethu rhai grwpiau penodol o ddysgwyr yn ystod wythnos gyntaf y tymor, megis Blynyddoedd 7, 12, 13 ac unedau arbennig ar gyfer ysgolion uwchradd ac unedau arbennig ar gyfer Blynyddoedd Cynnar a Blwyddyn 6.

O ystyried yr amgylchiadau eithriadol presennol, rydym yn gwybod bod llawer o'n staff gweithgar mewn ysgolion, dysgwyr a'u teuluoedd o bosibl o dan bwysau emosiynol, ariannol a seicolegol ychwanegol. Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion a lleoliadau i ystyried y ffordd orau o gefnogi anghenion lles parhaus pob dysgwr ar yr adeg hon.

**O ddydd Llun, 14 Medi, bydd presenoldeb pob disgybl yn yr ysgol yn orfodol.**

**Bydd ail-ddechrau'r ysgol yn golygu y bydd darpariaeth gofal plant brys ar gyfer gweithwyr hanfodol yn dod i ben ddydd Gwener, 24 Gorffennaf.**

Bydd gan bob lleoliad ysgol ei heriau lleol i fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys argaeledd staff. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen gyda chydweithwyr i gadarnhau trefniadau cludiant ysgol. Bydd y cyngor a'r ysgolion yn cydweithio â'i gilydd i oresgyn a datrys unrhyw broblemau.

Cofiwch ymweld â gwefan y cyngor yn gyson [www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk). Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chynnwys ar y wefan cyn gynted ag y bydd ar gael.

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

[www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk)



Rydym yn cydnabod y bydd ailagor ysgolion yn yr hinsawdd sydd ohoni yn heriol. Mae'r cyngor a'r ysgolion yn ymrwymedig i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod dysgwyr yn gallu parhau i ddysgu'n ddiogel. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhyddhau £28m o gymorth i gefnogi ysgolion i adfer o'r cyfnod hwn.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi. Mae'r misoedd diwethaf wedi rhoi pwysau ychwanegol ar bawb, ond yn enwedig ar rieni a gofalwyr sydd wedi gorfod addasu'n gyflym i addysgu eu plant gartref ar adeg sydd eisoes yn heriol iawn.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn o gymorth i chi. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau cysylltwch â'ch ysgol.

Yn ddiffuant,

**Cyng Cllr Phyl Davies**  
**Aelod Portffolio - Addysg ac Eiddo**

**Lynette Lovell**  
**Prif Swyddog Addysg Dros Do**